

Glas

Bwletin misol
Llên
natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Rhif 197
Gorffennaf 2024

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Nadroedd defaid
Anguis fragilis
Llun Oswyn Williams

Cyhoeddir **Glas** gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy bwletinglas.llennatur@gmail.com



HEDDIW MEWN HANES

Oes rhywyn yn gwybod pam fod sebon Gwyddelig yn wrthyn i Brydain yn 1750?

31/5/1750, Lle: Llanfechell

Ffynhonnell: Dyddiadur William Bulkeley, Brynddu, Llanfechell, Môn (gyda chaniatad Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor)

Nodiadau: *31st. The Wind S. S. W. blowing very moderate and warm, it was generally cloudy & overcast all day, yet made no rain & very little dew: Pd. i5d. for 3 pound weight of Irish Soap, which other years was sold for 9d. this being occasioned by a strict prohibition from bringing any of it over under severe penalties.*

Mi roedd treth mawr ar sebon yn y 18fed a'r 19eg ganrif yn Lloegr. Nid oedd y fath dreth yn Iwerddon ac roedd sebon yn cael ei **smyglo dros y dŵr**. Gweler y paragraff olaf o dan 'Anglesey and north Wales'. Mae'r ffaith fod canwyllau a sebon yn cael eu crybwyll yn yr un gwynt yn awgrymu, i mi, mai yr 'animal fat' oedd y rheswm am y trethi uchel ar y fath gynnyrch. Roedd sebon hefyd yn cael ei ystyried yn eitemau 'luxury'. Bedwyr Owen

Nid o angenrheidiwrwydd contraband oedd sebon WB; gweler y cofnod yma o Ebrill 8 1743.

"8th. The Wind N. W. blowing fresh & cold, but sunshiny and dry all day: A very poor Market to at LLanfechell for Butcher's meat, there being onely one Veal & one kid & those so very poor that they were not worth buying . Pd. 6s. for 12 pound of Soap at Holy head – Customhouse; which before the year 1739 used to be sold for 4s. 6d." Mae'r pris yn uwch oherwydd trethi/tollau 15 ceiniog o'i gymharu a 9 cheiniog cyn hynny.

Dyma gofnod o ddyddiadur WB am Mai 14 1750: *"A very penal Law being past from Ireland last Session of Parliament against running of Soap & Candles – there will soon be no soap to be had, but what comes from Chester at 7d. a pound: I bought to day of a woman in that buisness 20 pound weight almost - (which I am afraid is the last I shall have of her) for which I paid her 7s. 3d.2/1"* Dewi Lewis

Mae hyn yn codi'r cwestiwn 'pa floneg anifail?'

Yn achos dyddiadur arall o 1820-27, Owen Edwards o Brenteg, roedd o'n golegu'r tŷ fin nos efo rhywbeth - ond beth? Nid cwyr canwyll heidrocarbon wrth gwrs? Onid oedd ei oel-lamp ef yn saim morfil? Dyma anterth y diwydiant morfila, ond o bosib doedd gan OE ddim syniad beth yn union oedd yr olew a brynnai o'r siop ym mhentref Tremadog. Roedd o hefyd yn cadw geifr ac roedd rheiny yn ffynhonnell bosib o olew ond yn fwy trafferthus i'w baratoi na 'stên' o olew morfil? DB

Difyr iawn. Saim morfil? Wastad wedi dychmygu mai saim anifeiliaid fferm fuasai wedi cael eu defnyddio, ond mae morfil yn gwneud synwyr rwan. Bedwyr Owen

Enciliad y morwennol fach

Gronant, Mai 31. Methiant fu ymgais nythu gyntaf môr wennoliaid fechan Gronant oherwydd y tywydd, gwyntoedd cryf yn gorchuddio'r nyth gyda thywod, ond erbyn heddiw roeddynt wedi ail nythu; dywedodd y warden bod tua 200 pâr yn nythu ac yn manteisio ar y tywydd gwell. Alun Williams

Roedd rhain yn nythu ar draws arfordir y gogledd (Tywyn, Morfa Dinlle, Abermenai yn Niwbwrch) cyn i'r manau hynny fynd yn rhy boblogaidd gan bobl mae'n debyg. Maen nhw i gyd wedi encilio i Gronant lle mae nhw i weld yn gwneud yn o lew ar y cyfan? Llên Natur

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Cysylltwch gyda ni:
cymuned.llennatur@gmail.com




Bwyd y gwybedog brith



Wedi holi yr arbenigwr John Bratton am y pry adain patrymog ym mhig y ceiliog: "It is a scorpionfly *Panorpa sp.*, [Wikipedia](#) rather than *Diptera JB.*"



Dyma lun o un hapusach ei fyd! DK



[Ar YouTube](#)

Maelgi ar draeth Cricieth



Gwilym A Roberts: Corff 'Angel Shark', creadur hynod o brin ar draeth Criccieth heno, 16.6.2024.



Mae na modd riportio hwn fel rhan o brosiect i amddiffyn y maelgwn yng Nghymru - [ma na linc ar y dudalen yma](#) os oes ganddo chi ddi-ddordeb.

Curig Jones

Duncan Brown a Meryl [GAR] - diolch am rannu! Creadur prin a 'dan ni'n lwcus iawn bod moroedd Cymru yn dal i fod yn bwysig iddynt! Jake Delwyn Davies - wyt ti di gweld hwn? Project SIARC *Marine Environmental Monitoring*


Comics Iwan

Dwi wedi gweld llawer o blanhigion Clust yr Arth ar y calchfaen yn Nyffryn Clwyd, felly braf hefyd oedd ei weld yn Nant Peris ynghyd a'r mwsog *Neckera crispa* (calch-garwr) [7fed o Fehefin, 2024]. **clust yr arth**



Dyma ymgais i weld faint o erydiad a fu ar glogwyn Tanrhiwiau yng Nghricieth yn ystod y ~150 mlynedd dwythfa. Sylwer bod yr ardal rhwng y ddwy saeth ddu wedi mynd. **erydiad clogwyn tanrhiwiau**

Dyma ddefnyddio ffigurau uchder dŵr o'r Afon Gelyn, i roi cyfanswm y llif dros gyfnod o fis. Sylwer bod cyfanswm y llif heddiw yn is nac unrhyw gyfnod o fis y llynedd. Bydd hi'n ddiddorol gweld os y daw Capel Celyn i'r golwg eto. **cyfanswm y llif dros gyfnod o fis**




Roeddwn wedi sylwi ar y graig hon ar y Migneint o bell, ac wedi bwriadu mynd yno ers oes - Rhodynach teneuwe Wilson - nifer o glustogau sylweddol ohono. **rhodynach teneuwe wilson**

Mae tynnu lluniau planhigion trwy feicroscop yn dangos manylion nad ydynt i'w gweld efo'r llygad ar ei phen ei hun.


Dyma ddail y dduegredynen gwallt y forwyn trwy lens dau beiriant. Does na ddim mantais fawr o wario x29 o gost yr un rhataf yn nag oes? **trwy feicroscop**



Dwi wedi bod yn dilyn yr haen yma ar draws gwlad - Llundw Calchog Gelli Grîn. Nid calchfaen ydy hi, ond mae yna ddarnau yn y gogledd ger y Bala sydd yn galchog iawn. Felly dwi'n meddwl mai odynd calch ydy'r strwythyr hwn (llun) ger Llanymawddwy. **ludw calchog**



Diwrnodau ers 22ain o Fedi vs Blwyddyn



Cyfartaledd pymtheg o flynyddoedd - y dyddiad cyfartalog rhewi ffenest y car/fan am y tro cyntaf yn nhymor yr hydref yw'r 23ain o Hydref. Felly, rydw i tua mis yn hwyr eleni. **dyddiadau rhewi ffenest**




Mae yna lawer o hen systemau trydan-dŵr nad ydynt bellach yn weithredol. Tybed sawl watt o bŵer y gellir ei gynhyrchu gan y gored hon ym Mhontuchel ger Rhuthun. Dyma'r ffrwythau ar ganghennau isa'r goeden y dylid eu cynhaeafu gyntaf er mwyn lleihau allyriant CO2. **systemau trydan-dŵr**

Am dro bach i ben Craig Bron-banog. Sylwais bod y coed "conufferno" yn cael eu torri. Cyfrais tua 20 mlynedd o gylchoedd ar y coed. Sylwer bod y cylchoedd allanol yn denuach, yn enwedig ar ôl tua 10/11 mlynedd. Gwelais yr un patrwm ar foncyffion eraill. Tybed os oes mwy o egni yn cael ei ddefnyddio i dyfu am i fyny ar ôl cyfnod ychydig o flynyddoedd o dyfu am allan i lenwi'r bwch rhwng y coed?



dyfu am i fyny ar ôl cyfnod ychydig o flynyddoedd o dyfu am allan i lenwi'r bwch rhwng y coed? **cyldoedd ar y coed**




Bwlch Llanberis - Mae nifer o'r meini dyfod yn y darlun cyn 1859 wedi cael eu gwthio dros y clogwyn. **bwlch llanberis ddoe a heddiw**

Mwy am y stondinau Ilaeth

Dolen: Stodin Ilaeth - Glas 189 (tud. 2 a 3)

Bernie Hill taking the milk churns to the main road for collection. Nant Uchaf, between Groes and Bylchau, Denbigh.
Feb. 1967 Errol Edwards (→ Anita Myfanwy)

Oes rhywun yn cofio'r fferm?



A David Brown 900, giving 'about' 40hp, painted in Hunting Pink with blue wheels and front grill, it would've been between 8 to 10 years old in this great picture. Here's one of mine.

Phil Neville



Teclyn bach handi i gario'r caniau ar y tractor. Ai'r ffermwr wnaeth hwn ynteu oedden nhw ar y farchnad?

Pa mor bell oddiwrth eich tŷ chi yw'r stand laeth agosaf?

Y stondinau Ilaeth erbyn hyn yn rhan o hanes



Those were the days, covering the churns with hessian sacks soaked in cold water in the summer

Les Byrne

That's when we had summer !!

Nigel Roberts

A phwy sy'n cofio rhoi sachau gwlyb ar y caniau mewn tywydd poeth?

Y Stej Laeth

"Dyma'r llwyfan fu'n dathlu Perfformiadau buchesau y fro, Trwy gyfri y caniau a phrofi Mod i'n well ffarmwr na fo!"

Diolch i Elwyn Jones

Y "stand" llefrith

Dyddiadur DO Jones ■ Ty Uchaf, Padog

Gwers y mis



'Nid achosiant yw cydberthyniad' Un o wersi cyntaf ecoleg, wedi ei ddangos mewn ffordd hynod o fachog Diolch i Luis Garcia am y llun a'r syniad (Correlation is not causation)


Teithiau Cymdeithas Edward Llwyd

Y wefan a'r dudalen Facebook - un o brif weithgareddau'r Gymdeithas yw'r rhaglen gynhwysfawr o deithiau maes a gynhelir bron pob dydd Sadwrn mewn tri rhanbarth drwy Gymru: **Gogledd Dwyrain, Gwynedd a Môn, y De a'r Canolbarth.**



Tywydd y gwanwyn - Gorsaf Maes Gwynedd, Waunfawr

Mai 1, 2024 - Mai 31, 2024



	High	Low	Average
Temperature	24.4 °C	5.7 °C	13.0 °C
Dew Point	17.8 °C	2.7 °C	10.2 °C
Humidity	98 %	46 %	84 %
Precipitation	103.17 mm	--	--
	High	Low	Average
Wind Speed	28.8 km/h	0.0 km/h	2.5 km/h
Wind Gust	38.5 km/h	--	3.5 km/h
Wind Direction	--	--	South
Pressure	1,029.63 hPa	996.92 hPa	--

Dyma'r tywydd ym mis Mai. Gwanwyn 2024 oedd gwanwyn cynhesaf y DG ac ail gynhesaf Cymru ar gofnod erioed. Oedd hi'n teimlo felly? Efallai ddim ac roedd yn ddigon cymylog ar y cyfan OND yr hyn gododd y cyfartaledd i 13°C oedd tymhereddau'r nosweithiau (BBC, 3 Mehefin). Dyma'r pryder fwyaf wrth i Newid Hinsawdd afael, sef y tymheredd nos.

Gwres mawr 1976...

HEDDIW MEWN HANES

2024 - Be ddigwyddodd eleni tybed?

13/6/1976

Lle: Esgairdawe

Ffynhonnell: Dyddiadur Defi Lango, Esgairdawe (Perlau'r Pridd 2009)

Nodiadau: Nid wy'n meddwl i mi weld y wlad mor brydferth erioed â 'leni - mae blodau y drain gwynion yn tynnu sylw pawb ac erbyn hyn mae'r "golden chain" [tresi aur?] eto yn rhyfeddod - caf fy hun yn aml yn sefyll wrth fynd dros y tir i ryfeddu at y prydferthwch dihafal, ac mae eraill wedi son am yr un peth.



Haf poeth 1976...
Haf 2024 ?

Adnabod brain Cymru

- pen llwyd
- llygad glaswyn
- unionsyth a thalog
- y fran leiaf
- gwddf byr
- clebran bach ciwt : "tjac... tjac"



jac-y-do

Corvus monedula

- fflapian mwy na brain eraill wrth hedfan
- top coesau fel trowsus blewog
- pig llwyd golau
- crawc fel brân â dolur gwddf



ydffran

Corvus frugilegus



- crawc cras
- cynffon siâp cŷn wrth hedfan

Llen natur
Cymdeithas Edward Llwyd

YR UN RHYWOGAETH Â BRÂN DYDDYN

- yn bennaf yng ngogledd a gorllewin yr Alban ac Iwerddon - yng ngogledd a dwyrain Ewrop
- corff llwyd a du

brân dyddyn

Corvus corone



- arfordirol a phrin
- galwad nodweddiadol : "ciâw... ciâw"
- coesau coch
- pig coch crwm

- yn amlwg yn hollol wahanol i frain eraill

- sgrech unsill, fel hisian cras



sgrech y coed

Garrulus glandarius

brân lwyd

Corvus cornix



brân goesgoch

Pyrrhocorax pyrrhocorax

- du a gwyn
- clebran uchel, fel ratlo
- cynffon hir, ddulas

- anferth - maint bwncath
- cynffon siâp diamwnt wrth hedfan
- gwddf a phig praff
- crawcian : "prÿc... prÿc"



pioden

Pica pica



cigfran

Corvus corax